



Cylchlythyr Diogelu

Croeso mawr i bawb. Rydyn ni'n ddiolchgar am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad i ddiogelu ac rydyn ni eisiau croesawu pob un ohonoch chi i ddiweddariadau drwy'r cylchlythyr hwn. Bydd unrhyw gyfraniadau i'r cylchlythyr yn cael eu croesawu bob amser. Rydyn ni'n gobeithio dod â chyfoeth o wybodaeth i chi a'ch cyfeirio er mwyn eich helpu gyda'ch ymarfer diogelu bob dydd.

Rydyn ni'n deall y gall diogelu fod yn brofiad heriol ond mae'r Tîm Diogelu Corfforaethol a'r Bwrdd Diogelu wrth law i'ch cefnogi chi a'ch cydweithwyr.

Cysylltiadau Defnyddiol:

Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr (MASH) 01443 743730	Cyswllt Iechyd (MASH) 01443 742949/01656 643630 E-bost Iechyd CTHBMASHReferrals@wales.nhs.uk (Rhaid i bob atgyfeiriad iechyd gael ei anfon yn electronig i'r cyfeiriad e-bost uchod. Gall copi gael ei anfon i'r awdurdod lleol ar gais y tu allan i oriau)
Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (MASH) 01656 642320	EDT 01443 743730

Prosiect Caledi – Rhwydwaith Integredig Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Gall tlodi effeithio ar iechyd pan nad oes digon o adnoddau ariannol i ddiwallu anghenion byw sylfaenol, fel gwresogi digonol ar gyfer y cartref, dillad priodol, neu faeth digonol. Gall tlodi hefyd effeithio ar iechyd seicolegol unigolion sy'n heneiddio ac mae'n cael ei ystyried yn ffactor risg ar gyfer dirywiad mewn iechyd meddwl ymhlith pobl hŷn. Yn aml, y rhai sydd â statws economaidd-gymdeithasol is sydd fwyaf tebygol o gael diagnosis o anhwylder seicolegol. Yn ystod yr argyfwng economaidd hwn, rydyn ni'n pryderu y bydd unigolion yn dechrau mynd heb fwyd i arbed arian rhent, gan ddatgysylltu'r nwy er mwyn arbed arian a pheidio â choginio bwyd er mwyn arbed costau ynni. Mae'n ymddangos bod ymdeimlad cynyddol o bwysau wrth geisio cefnogi aelodau'r teulu a phryder am y dyfodol. Yn y tîm, rydyn ni'n poeni'n benodol am unigolion sydd wedi'u cynnwys ar lwyth achosion nyrsys ardal gan eu bod yn gaeth i'r tŷ ac yn methu gadael y cartref i ddod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Rydyn ni'n poeni na fyddan nhw'n dilyn eu cynllun gofal neu na fyddan nhw'n edrych ar ôl eu hunain – y byddan nhw penderfynu peidio â dilyn cynlluniau deietegol o bosibl, yn rhoi'r gorau i dalu am becynnau gofal, yn penderfynu peidio â defnyddio offer a ddarperir ar eu cyfer fel matresi llif aer, peiriannau CPAP ac ati – ac, o'r herwydd, efallai na fydd eu hiechyd yn gwella a bydd angen iddyn nhw fynd i'r ysbyty neu waeth. Mae'r bobl hyn yn arbennig o agored i gamdriniaeth gan aelodau o'r teulu, cymdogion/ffrindiau neu fasnachwyr sgam – mae cam-drin ariannol yn bosibilrwydd go iawn. Yn ein prosiect, rydyn ni'n gofyn i weithwyr proffesiynol yn y rhwydwaith edrych ar bethau mewn ffordd holistaidd – dod i ddeall eu rhwydwaith gymdeithasol, edrych i weld a oes arwyddion o hunan-esgeulustod ac, os bydd yr unigolyn yn dechrau lleisio pryderon am ei sefyllfa ariannol a/neu'r bobl sy'n gofalu amdano, yna dylent gyfeirio at y tîm amlddisgyblaethol. Rydyn ni'n meithrin perthnasau â sefydliadau trydydd sector a fydd yn gallu cyfeirio a chefnogi'r unigolion hyn pan fyddan nhw'n cael eu hadnabod. Fel rhan o wythnos ddiogelu, byddwn ni hefyd yn cynnal rhagor o weithgareddau ymwybyddiaeth i dynnu sylw at oblygiadau tlodi o safbwynt diogelu.

Ymddygiad rhywiol niweidiol: labelu gweithredoedd, nid plant

<https://learning.nspcc.org.uk/news/why-language-matters/harmful-sexual-behaviour-labelling-actions-not-children>

The logo for NSPCC Learning. It features the text 'NSPCC' in a large, bold, green sans-serif font. Below it, the word 'Learning' is written in a smaller, green sans-serif font, with a small registered trademark symbol (®) at the end. The entire logo is set against a light grey rectangular background.

Briff 7 Munud ar Chwylfrydedd Proffesiynol



Professional Curiosity Themes from Child and Adult Practice Reviews



In the event of a serious incident, the death of a child or adult the relevant Regional Safeguarding Board will complete a Child Practice Review (CPR) or Adult Practice Review (APR).

The key aim of any review is to collaborate with practitioners from all organisations who knew the young person or adult, and their family. To understand whether there are lessons that can be learnt to improve practice in the future. It is important to stress that the review process is not designed to apportion blame, but to try and understand what happened and the wide range of factors that affected the way people responded to the circumstances of the case at the time.

A theme has been a factor in many published reviews is the lack of what is known as professional curiosity.

Background:

All professionals who come into contact with children, parents, adults and carers in the course of their work need to be aware of their Safeguarding responsibilities and alert to their vulnerabilities. This requires inquisitive curiosity about a family, their circumstances and events that can effectively identify vulnerabilities and potential or actual risks of harm. People young and old rarely disclose abuse and neglect directly to practitioners and, if they do it will often be through unusual behaviours and comments. This makes identifying abuse and neglect difficult for professionals across agencies.

Why it Matters?

People do not always disclose abuse and neglect directly to practitioners and, if they do, it will often be through unusual behaviour or comments. This makes identifying abuse and neglect difficult for professionals across agencies. The first step in keeping people safe is to be professionally curious and to engage with children, adults and their families at the earliest opportunity before problems escalate into crisis.


Reviews into adults and child deaths repeatedly highlight the need for practitioners to be alert to the risk of fixed thinking and perceptual bias. Munro (2005) comments that repeated inquiry reports show the extraordinary lengths to which some abusive parents can go in their efforts to deceive practitioners through disguised compliance. The Daniel Pelka review emphasised the need for professionals to be able to **'think the unthinkable'** rather than accept parental versions of what is happening at home.

Action:

Develop your own 'Professional Curiosity'
Reassure and treat clinical signs as per organisational policies and procedures.
If you suspect abuse or neglect this must be an 'At risk' report.

- Consider Police support if the child, young person or adult is in immediate danger

Contact the Safeguarding Team/Lead for any further advice.



Recognition:

Professional Curiosity – also described by Lord Laming (2003) in the Victoria Climbié inquiry as 'respectful uncertainty' – is the capacity to explore and understand what is happening within a family rather than making assumptions or accepting things at face value, applying critical evaluation to any information received and maintaining an open mind. By acquiring an open mind and curious mindset, professionals can avoid linear and absolute explanations by exploring alternative, multiple perspectives on a situation.

How to respond:

- Develop critical thinking skills, sensitivity and persistence.
- Remain curious and inquisitive about what you are seeing and assessing
- Be open to new information
- Be confident that you have sufficient information upon which to base judgements
- Consider the need to add a "warning" about the strength of evidence contained in this assessment and implications for decision making
- Be prepared to change your mind

Key Issues:

Professional curiosity is supported by:

- A person centred approach with an ability to create suitably safe and trusting listening environment for children, young people and vulnerable adults.
- Identifying and exploring what is not discussed as much as what is.
- An openness to other perspectives/ willingness to try different responses.
- An ability to build close partnership style relationships with families whilst being constantly aware of the child's and adults needs/degree to which they are met.
- Judgements based on evidence not optimism.

Mae Modd i Unrhyw Ddyn...ddioddef cam-drin domestig

Datganiad Newyddion

Mae ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod dynion yn gallu dioddef cam-drin domestig wedi cael ei datblygu gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, ar y cyd â Grŵp Llywio VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) Cwm Taf Morgannwg.

Roedd hyn mewn ymateb i un o argymhellion [Adolygiad o Laddiad Domestig](#) yn dilyn marwolaeth dyn yn ardal Cwm Taf oherwydd trais domestig.

Nod ymgyrch "*Mae Modd i Unrhyw Ddyn...*" yw tynnu sylw at gam-drin domestig yn erbyn dynion a chodi ymwybyddiaeth am ble y gallan nhw gael gwybodaeth, cyngor a chymorth yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Yn ôl yr ystadegau:

- Bydd un o bob chwe dyn yn dioddef cam-drin domestig yn ystod eu hoes.
- Mae dros 500,000 o ddynion yn dioddef camdriniaeth gan eu partner.
- Mae un dyn yn cael ei ladd bob pythefnos gan bartner neu gyn-bartner.

(Adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) 2017/18)

Mae Modd i Unrhyw Ddyn... ddioddef cam-drin domestig.

Er gwaethaf y ffigurau hyn, credir bod trais a cham-drin domestig yn erbyn dynion yn drosedd nad yw'n cael ei chofnodi'n llawn, yn aml oherwydd rhwystrau fel ofn peidio â chael eu credu neu gael eu cyhuddo fel y drwgweithredwr, embaras wrth siarad am y gamdriniaeth, a theimlo'n 'llai o ddyn'. Nod "*Mae Modd i Unrhyw Ddyn...*" yw helpu i chwalu'r rhwystrau hyn ac annog dioddefwyr i gael y cymorth, y gefnogaeth a'r cyngor ymarferol sydd ar gael ledled Cwm Taf Morgannwg.

Mae gan ddynion yr un hawliau yn union â menywod i fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae dyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu eu gwasanaethau i bawb, beth bynnag fo'u rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae dynion yn cael eu diogelu gan yr un deddfau yn union â menywod — gall unrhyw un sydd wedi ymosod ar berson arall, waeth beth fo rhywedd y naill neu'r llall, gael ei erlyn.

Mae Modd i Unrhyw Ddyn... ddioddef cam-drin domestig.

Mae Modd i Unrhyw Ddyn...gael cymorth.

Os ydych chi'n dioddef cam-drin domestig ac angen rhywun i siarad ag ef am gymorth ac arweiniad, cysylltwch â ni.

Rhondda Cynon Taf

PontypriddSafetyUnit@rctcbc.gov.uk

01443 494190

Merthyr Tudful

Teulu.mac@smt.org.uk

01685 388444

Ffôn Symudol/Gwasanaeth Testun – 07539 170396

Pen-y-bont ar Ogwr

info@calandvs.org.uk 01656 766139

Byw Heb Ofn (llinell gymorth 24 awr)

0808 80 10 800

Os ydych chi'n dioddef trais domestig ac mae angen cymorth brys arnoch chi, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ctmsb.co.uk

Dydych chi ddim ar eich pen eich hun.



Diwrnod Astudio Profedigaeth Bediatrig



Paediatric Bereavement Study Day

Dydd Llun 30 Ionawr, 2023

Canolfan Addysg Keir Hardie

08:30 – 16:30 Cost: Am ddim

Ar agor i bob grŵp staff

I drefnu lle, e-bostiwch:

Esyld.Watson@wales.nhs.uk



Nod: Cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Heb Esboniad yn ystod Plentyndod. (Mae cais wedi'i wneud am bwyntiau DPP)